

# Chwarae dros Cymru

Rhifyn 9 Gwanwyn 2003



NEWYDDION CHWARAE A GWYBODAETH GAN Y SEFYDLIAD CENEDLAETHOL DROS CHWARAE

## MYNEGWCH EICH BARN AR CHWARAE YNG NGHYMURU

**R**oedd adroddiad yn ein rhifyn Rdiwethaf ar yr adolygiad ar chwarae a gynhelir gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar draws y Deyrnas Gyfunol Mae'r Adran yn darparu £200 miliwn (o 2005 mae'n debyg) drwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i greu a gwella cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc (0-16 mlwydd oed) ar draws Prydain. Bydd yr adolygiad yma'n rhoi cyfeiriad am y modd y caiff yr arian ei wario.

Yn fuan ar ôl i Chwarae dros Gymru fynd i'r wasg, yng ngoleuni ei Pholisi Chwarae newydd a'r adolygiad Cyflwr Chwarae a ddigwyddodd yng Nghymru yn 2000, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ei ymgynghoriad ei hunan a fyddai'n bwydo i mewn i Adolygiad yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain. Bydd gan y Cynulliad ddylanwad dros y modd y dosberthir yr arian yng Nghymru, a bydd hefyd yn defnyddio'r ymgynghoriad i drwytho ei Strategaeth Chwarae arfaethedig.

Mae gan broffesiynolion chwarae ledled Cymru gyfle yn awr i ddylanwadu ar y modd y mae chwarae'n cael ei ariannu yn y wlad ac i flaenori ardaloedd sydd hyd yn hyn wedi cael eu hesgeuluso. Felly, ewch ati i roi eich syniadau ar bapur. Mae'n rhaid i'r ymateb i'r ymgynghoriad gael ei anfon yn ôl erbyn 31 Mawrth, a chyhoeddir canlyniadau'r Adolygiad yn hwyrach y Gwanwyn yma.

Yn y cyfamser, dyma fersiwn byr o ymateb Chwarae Cymru i'r ymgynghoriad fel arweiniad i eraill a rhywbeth i gnoi cil arno;

**Dylai'r rhaglen ariannu yma gyfrannu at gyflwyniad strategaeth genedlaethol i sicrhau bob Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad yn symud o fod yn ddyhead i fod yn realiti.**

### Diffiniad o Chwarae a Darpariaeth Chwarae:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu polisi chwarae sy'n diffinio chwarae yn wahanol i'r diffiniad a ddefnyddir gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Hoffai Chwarae Cymru weld Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ailadrodd ei ymrwymiad i'w diffiniad ei hunan.

Darpariaeth chwarae yw unrhyw ofod neu gyfleuster, wedi ei staffio neu heb ei staffio, sy'n darparu cyfleoedd chwarae i blant. Dylai hefyd ddarparu rhyddid iddynt gael y cyfle i chwarae ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill. Pan fyddant yn defnyddio gofod chwarae, dylai plant fod yn rhydd i ddewis dros eu hunain beth y maent eisiau ei wneud, pam y



maent yn ei wneud a sut y maent yn mynd ati i wneud hynny. Mae darpariaeth chwarae o safon uchel yn cynnig amgylchedd cyfoethog ysgogol i blant, heb berygl anaddas, ac yn llawn o her, gan roi cyfle iddynt archwilio eu hunain a'r byd drwy chwarae sydd wedi ei ddewis yn rhydd. Gall darpariaeth chwarae

gynnwys gofod cyhoeddus sy'n cael ei rannu: strydoedd, parciau, ardaloedd i gerddwyr, ardaloedd chwarae ar garreg y drws, tai chwarae cymunedol, ardaloedd offer sefydlog, mannau chwarae antur, cynlluniau chwarae gwyliau, canolfannau chwarae a chyfleusterau symudol - wedi eu hariannu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus.

### Blaenori Prosiectau

Y mathau o chwarae a ddylai gael ei flaenori o dan y cynllun yw cyfleusterau chwarae/hamdden yn yr awyr agored heb arolygaeth, a darpariaeth chwarae "mynediad agored" o dan arolygaeth (gweler diffiniad ar dudalen 4). Tra bo gwella cyfleoedd chwarae mewn addysg cyn-ysgol, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau gofal plant yn dra phwysig, mae gan y prosiectau yma eu mynediad eu hunain i'w ffrydiau arian loteri, neu arian o ffynonellau eraill. Gobeithir y bydd darganfyddiadau'r adolygiad yn mynd beth o'r ffordd tuag at gynyddu ymwybyddiaeth, datblygiad profesiynol a hfforddiant chwarae i staff yn y lleoliadau yma.

### Dyrannu Cyllid

Ar yr olwg gyntaf mae £200 miliwn ar gyfer chwarae'n ymddangos yn fuddsoddiad enfawr; fodd bynnag, bydd rhaid iddo gael ei

**Parhad ar dudalennau 8 & 9.**

## Digwyddiad Ymgynghoriad Adolygiad Chwarae

**C**ychwynnodd 90 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru yn fore iawn i gyfrannu tuag at ddigwyddiad a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 3 Mawrth.

Adroddiad Marianne Mannello, Swyddog Datblygu Chwarae Cymru De Cymru:

Bwriad y digwyddiad oedd casglu barn pobl ar draws sectorau ac ardaloedd daearyddol ar gyfer Adolygiad Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Gan ddefnyddio'r cwestiynau a gynhwyswyd yn holiadur yr ymgynghoriad, hwylusodd dynamix (corff hyfforddi cydweithredol yn Abertawe), weithgareddau bywiog a chreadigol i gasglu gwybodaeth, a chyfeiriodd y cyfranogwyr at Bolisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth drafod y materion a godwyd.

Un o nodweddion y rhaglen yma yng Nghymru yw'r cynnig bod y Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn dosbarthu'r cyllid. Disgrifiodd gweithdy diddorol fanteision ac anafanteision yr awgrym yma gyda llawer o onestrwydd. Mae'n glir bod yna anghysondebau o hyd ledled Cymru parthed ariannu cyfleoedd chwarae mynediad



agored - sydd yn achos pryder. Mae hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth cyffredinol ymhlith partneriaid am wir ddiffiniad chwarae mynediad agored, (gweler tud 4 am ddiffiniad o fynediad agored) a'r realiti mai ychydig o barneriaethau sydd yn medru ymfalchio mewn gweithiwr datblygu ymhlith eu haelodaeth.

Roedd yr ymagwedd ddfater yma tuag at ymgynghori â phlant a phobl ifanc yng Nghymru hefyd yn bwnc dadleuol. Mae plant Cymru

yn medru mynegi eu barn ar un o wefannau'r BBC [http://news.bbc.co.uk/cbbcnews/hi/uk/newsid\\_2797000/2797449.stm](http://news.bbc.co.uk/cbbcnews/hi/uk/newsid_2797000/2797449.stm).

Teimlodd y cynrychiolwyr y gallai gwell arweiniad ar gyfer ymgynghori â phlant fod wedi ei ddosbarthu i weithwyr chwarae a gweithwyr eraill cymunedol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Roedd yn glir bod cynrychiolwyr yn awyddus i weld rhaglen gyffredinol yn ymddangos i gwrdd ag anghenion chwarae pob plentyn a pherson ifanc. Mae yna ymwybyddiaeth cynyddol o'r buddiannau sy'n deillio i blant a phobl ifanc o fynediad i gyfleoedd chwarae. Aeth y digwyddiad yma beth o'r ffordd tuag at hybu'r ymwybyddiaeth hwnnw.

# GOLYGYDDOL

**M**ae'n arwynebol ac yn wastraff amser i rygnu ymlaen am y gorffennol, ond y gwir yw bod ffitrwydd plant yn peri llawer llai o bryder mewn degawdau blaenorol pan roedd gan blant amrediad ehangach o gyfleoedd chwarae, mwy o ryddid i grwydro a mwy o amser rhydd.

Mae ymchwil yn cadarnhau bod bodau dynol ifanc yn cael eu geni â'r awydd i chwarae - mae'n rheidrwydd biolegol. Dyma'r ffordd naturiol i ddatblygu a chynnal cyrff a meddyliau iach. Yr ateb yw cynyddu cyfle plant i chwarae. Felly pam ein bod ni'n creu ac yn argymhell pethau megis cyfundrefnau ffitrwydd ac ymarfer corff mewn campfeydd neu fideo? Gallai sinig ddadlau bod gan y peth lawer mwy i wneud â ffrasiwn, y tueddiad tuag at ddefnyddiaeth amlwg, ac angen oedolion am fywyd cyfleus a thawel, nag anghenion plant.

Dyma rai syniadau amgen ond llai cysurus a chyfleus, awgrymiadau ar gyfer cynnwys ymarfer corff ym mywyd bob dydd plant:

- Caniatâu i blant chwarae yn yr awyr agored. Mewn gwirionedd mae'r perygl iddynt gael eu herwgipio neu eu molestu yn hynod o annhebygol.
- Cefnogi mentrau parth cartref (gweler tudalen 6). Mae ceir yn awr yn dominyddu ardaloedd a oedd yn y gorffennol ar gael ar gyfer chwaraeon anffurfiol a gemau stryd sy'n cadw plant yn ffit.
- Nid atodion ffrasiwn yw plant, ac nid ydynt ychwaith yn wan a bregus. Gadewch iddynt ddringo, sgrialu, neidio o uchderau a chodi a thynnu gwrthrychau trwm a thrwsgl. Weithiau efallai y gallant ddistrywio neu faeddu eu dillad neu gael dolur fel

canlyniad, ond mae hyn i gyd yn rhan o dyfu i fyny.

- Rhowch amser i blant chwarae. Mae gweithgareddau tu allan i'r ysgol a hyfforddiant chwaraeon yn iawn os ydyw'n gymedrol, a rhai ohonynt yn cyfrannu at ffitrwydd plentyn, ond dim ond un plentynod a gawn - na fydded i ni ei lenwi a blaenoriaethau a diddordebau oedolion.

Nid gwyddoniaeth roced ydyw - ond magwraeth sylfaenol sydd wedi ei phrofi a'i harfer dros filoedd o flynyddoedd. Nid yw'n costio llawer o arian neu'n gofyn am ymdrech fawr iawn, ond mae'n hanfodol ein bod yn cychwyn blaenori plant a'u hanghenion chwarae. Os na wnawn, rydym yn peryglu goresiad plant yn y tymor hir. Neu medrem gludo ein plant i sesiwn arall yn y gampfa, neu aros yn ein cocŵn a gosod fideo ffitrwydd yn y peiriant a phwyso'r botwm.

**Gill Evans, Swyddog Gwybodaeth**

## BOCS SEBON TONY



**M**ae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno gweld Canolfannau Integredig Plant (yn darparu chwarae mynediad agored, gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar a hyfforddiant a datblygiad cymunedol) yn cael eu sefydlu ym mhob Sir. Er fy mod yn croesawu'r cynllun yma a chynllun ariannu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd sy'n cydynd ag ef, rwyf yn pryderu'n fawr am absenoldeb cynllunio ar gyfer dosbarthu'r arian yma - yn arbennig os mai'r nod yw darparu mynediad i gyfleoedd chwarae agored o ansawdd. [Gweler yr erthygl ar chwarae mynediad agored nes ymlaen yn y cylchlythyr yma].

Mae cynnwys chwarae mynediad agored yn edrych fel petai'n rhywbeth i fod yn falch iawn ohono, ac rwyf i yn sicr yn ei groesawu. Fodd bynnag mae yna nifer sylweddol o agweddau sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus a sensitif, pob un ohonynt yn cynnwys gormod o oblygiadau i sôn amdanynt i gyd yn y nodiadau byr yma. Rwyf o'r farn bendant y dylai'r cwestiynau canlynol gael eu hystyried ochr yn ochr â materion eraill:

- A fyddai'r pedair elfen graidd yn cael eu cynrychioli'n gyfartal yn rheolaeth y Canolfannau?
- Oes yna ddealltwriaeth lwyr o chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd a darpariaeth chwarae mynediad agored? Nid yw nodiadau arweiniol yr NOF yn ddefnyddiol, a gallent o leiaf greu dryswch.
- Oes yna wrthdaro rhwng buddiannau yn narpariaeth chwarae mynediad agored ochr yn ochr â gofal plant? A fyddai cyfaddawdu yn effeithio ar ansawdd gwasanaethau i blant?

- Oes yna werthfawrogiad llwyr o oblygiadau tymor hir darpariaeth chwarae mynediad agored, gan gadw mewn cof gost cyflogi gweithwyr chwarae ar ôl yr ysgol, yn ystod penwythnosau ac adeg gwyliau ysgol?

- A yw'r Paneli Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, y corff sy'n gyfrifol am sefydlu Canolfannau Integredig Plant, yn cynnwys pobl â dealltwriaeth a phrofiad o chwarae mynediad agored a gwaith chwarae?

Mae'r cynnydd diweddar yn lefel cefnogaeth wleidyddol ac ariannol i chwarae plant yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr, ond mae'n rhaid i weithwyr datblygu chwarae â gwybodaeth o chwarae mynediad agored a gwaith chwarae gael eu cynrychioli yn y broses gwneud polisi. Dylai gwaith chwarae gael pob cyfle ac anogaeth i gryfhau ei safle o fewn Awdurdodau Lleol.

**Tony Chilton, Uwch Swyddog Datblygu, Chwarae Cymru**

CYNNWYS	
• Golygyddol	T2
• Bocs Sebon Tony	T2
• Draig Ffynci	T2
• Cymdeithas Llyfrgelloedd Teganau	T3
• Adnoddau Gwybodaeth Chwarae	T3
• Gwobr Play Right	T3
• Llwyddiant Chwarae a Chwaraeon	T3
• Chwarae Mynediad Agored	T4
• Model o Fenter	T5
• Darparau Chwarae	T5
• Neidio o Gwmpas	T5
• Parthau Cartref	T6
• Diwrnod Chwarae	T7
• Chwarae yng Nghymru Parhad	T8
• Gweithwyr Datblygu Chwarae yng Nghymru	T9
• Gwefan Chwarae Cymru	T10
• Digwyddiadau	T10
• Llyfrau a Chylchgronau	T10

## DRAIG FFYNCI

**L**ansiwyd Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc Cymru ym mis Tachwedd 2002. Bwriedir i Draig Ffynci ddarparu gwybodaeth ar y prif bynciau, cynigion polisi a chynlluniau'r Cynulliad, llywodraeth leol a gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ac i sicrhau bod anghenion a lleisiau plant ledled Cymru'n cael eu hystyried ar draws amrediad o wneuthuriadau polisi.

Mae Draig Ffynci wedi cyhoeddi set o ganllawiau arfer da ar gyfer cyfranogiad plant, a elwir Anadlu Tân i Gyfranogiad, y gellir ei archebu o'r cyfeiriad isod.

**Draig Ffynci, 35 Heathfield, Mount Pleasant, Abertawe, SA1 6EJ**  
**Ffôn 01792 450000, neu wefan [www.funkydragon.org](http://www.funkydragon.org)**

### Chwarae dros Gymru

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru. Dylid anfon pob gohebiaeth ac ymholiadau at y Golygydd yn: **Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH**  
**Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: [mail@playwales.org.uk](mailto:mail@playwales.org.uk)**  
 Elusen gofrestrddig rhif 1068926

*Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn.*

*Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi.*

*Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Ltd. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: [sales@carrickbusiness.co.uk](mailto:sales@carrickbusiness.co.uk). Cartwnau gan Les Evans*



# CYMDEITHAS LLYFRGELLOEDD TEGANAU YNG NGHYMURU

**D**iolch i gylled tair blynedd a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae Sefydliad Cenedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden (NATLL) wedi agor canolfan gyswilt yn Aberhonddu. Dyma'r tro cyntaf i'r elusen genedlaethol yma gael safle yng Nghymru.

Mae'r Weithwraig Datblygu, Janet Matthews, yn edrych ymlaen at gwrrd â'r rhai sy'n gweithio yn y llyfrgell deganau ac mae Cydlynwyr Cychwyn Cadarn ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n gobeithio gweld llyfrgelloedd deganau'n cael eu cynnwys yng gwasanaethau plant ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.

"Mae datblygu proffil cenedlaethol addas ar gyfer NATLL yn hollbwysig, o gadw mewn golwg

"Fframwaith Partneriaeth" y Cynulliad a mentrau strategol eraill ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru".

Mae NATLL hefyd yn helpu i hyfforddi staff gofal plant a gwirfoddolwyr ar y meini prawf ar gyfer dewis y teganau gorau oll, a denu teuluoedd i ymuno â'u llyfrgell deganau leol, gan bwysleisio pwysigrwydd chwarae yn natblygiad plentyn. Mae hefyd yn rhedeg llinell gymorth i aelodau.

**Cysylltwch â Janet Matthews ar 01874 623268 neu natllwales@tiscali.co.uk**

**Swyddfa NATLL yng Nghymru, Tŷ Steeple, Lon Steeple, Steeple Lane, Aberhonddu, Powys LD3 7DJ**

## Adnodd Gwybodaeth Chwarae

**M**ae'r Adnodd Gwybodaeth Chwarae yn swyddfa genedlaethol Chwarae Cymru yn tyfu yn gyflym. Cyn bo hir byddwch yn medru cyrchu cronfa ddata drwy ein gwefan yn [www.playwales.org.uk](http://www.playwales.org.uk). Y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw clicio ar y botwm Llyfrgell a dilyn y cyfarwyddiadau. Medrchw chwilio am lyfrau a deunyddiau eraill yn ôl awdur, teitl a phwnc a gwneud cais am lungopiau dros y ffôn neu e-bost.

Mae ymwelwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae wrth eu bodd gyda'r amrediad o lyfrau sydd gennym o'i gymharu â llyfrgelloedd

colegau. Mae croeso i chi ymweld â ni ac mae man astudio ar gael. Yn anffodus nid ydym yn medru rhoi llyfrau ar fenthyg.

Rydym hefyd yn y broses o adeiladu casgliad cyfeiriadurol ein swyddfa yng ngogledd Cymru ym Mhrestatyn. Gallwch ymweld â'r naill llyfrgell neu'r llall drwy drefnu hynny ymlaen llaw.

**Gill Evans, Swyddog Gwybodaeth  
info@playwales.org.uk**

**Swyddfa Genedlaethol 029 2048 6050**

**Swyddfa Gogledd Cymru 01745 851 816**

## Play Right yn Ennill Gwobr AMGYLCHEDD

**M**ewn cornel dawel yn ardal Menter Abertawe mae elusen plant Play Right...

Yn ddiweddar enillodd tîm y Ganolfan Adnoddau Chwarae yn Play Right Wobr Amgylchedd Cymunedol Cymru. Roeddem wrth ein bodd, ac nid oeddem yn poeni dim am y pennawd yn y wasg leol 'Charity Waste Bag Collectors Facing the Sack!' Yn anffodus canolbwyntiodd yr erthygl ar yr argyfwng ariannu sydd wedi wynebu'r Prosiect, yn hytrach nag ar ein llwyddiant annisgwyl. Fodd bynnag, mae adran fusnes yr un papur lleol wedi mabwysiadu'r Ganolfan Adnoddau Chwarae fel ei helusen am y flwyddyn 2003, felly rydym wedi maddau iddynt! (Gadewch i ni obeithio y byddwn yn bodoli'n ddigon hir i roi'r storïau iddynt!!)

Mae Play Right yn bodoli i gefnogi anghenion chwarae, adloniadol ac addysgol plant a phobl ifanc ar draws yr hyn oedd yn arfer cael ei alw'n Orllewin Morgannwg (Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot) er bod aelodau'n teithio o fannau llawer pellach i ffwrdd i gyrchu pethau da'r Ganolfan Adnoddau Chwarae.

Ond y prif reswm dros ennill y wobwr oedd ein Stofa Sgrap. Yn ein stofa sgrap rydym yn darparu deunyddiau gwastraff diwenwyn sy'n cael eu rhoi i ni gan fusnes a diwydiant lleol a fedrir e hail-ddefnyddio gan blant ar gyfer celf a chreffft yn hytrach na'u hanfon i domen lanw. Mae gennym ddewis enfawr o ddeunyddiau i'w cynnig - plastig, cortynnau, papur, cardfwrdd, hambyrddau, yn wir pob math o bethau - mae gennym hyd yn oed ddrysau, nwyddau creffft cartref, ac oes, y sinc cegin clasurol!

Mae gan y Canolfannau Adnoddau Chwarae a

Stofa Sgrap rôl enfawr i'w chwarae yn y gymuned. Rydym nid yn unig yn darparu adnoddau chwarae ac adnoddau creadigol am gost isel neu am ddim, ond hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Llynedd, o fewn blwyddyn yn unig, gwnaethom achub yr hyn sy'n gyfartal i 5,600 o fagiau du llawn deunyddiau gwastraff rhag cael eu dwyn i gladdfa sbwriel (heblaw yr hyn sydd gennym yn y stôr) oherwydd iddynt gael eu dwyn allan o'r adeilad gan aelodau.

Mae defnyddio metel sgrap yn rhoi cyfle i addysgu pobl o bob oed am y maint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn y broses weithgynhyrchu a phacio nwyddau o ddydd i ddydd, a hybu dyfeisgarwch yn ein cymdeithas tafu-i-ffwrdd. Mewn ffaith rydym wedi cael ein galw'n 'Archfarchnad Swreal' lle mae pobl yn llenwi eu troliis â deunyddiau pacio yn hytrach na bwyd. Mae gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr sgrap ar eu hennill am fod eu costau gwastraff yn cael ei leihau a'u bod yn helpu'r gymuned, ac mae'r amgylchedd ar ei ennill drwy beidio gorfod tafu gwastraff - perffaith ymarferol ar gyfer ei ail-dddefnyddio - i'r ddaear i gael ei losgi!! Mae'n swnio fel synnwyr cyffredin i ni.

**Jacki Rees Thomas, Cydlynnydd Gofalwyr,  
Play Right, Abertawe 01792 794884**

Yn ogystal â rhedeg Cynlluniau Chwarae a phrosiect Llong Morladron symudol a Chastell Sboncio anhygoel yn ystod yr haf, mae Play Right yn cynnig:

- Siop celf a chreffft cost isel;
- Gwasanaeth benthgy offer;
- Llyfrgell â stoc dda o lyfrau;
- Hyfforddiant mewnol ar faterion megis Amddiffyn Plant, Ymwybyddiaeth Aml-ddiwylliannol, Chwarae Creadigol, Chwaraeon mewn Natur a llawer mwy.
- Gall grwpiau allanol hefyd logi ein stafell hyfforddiant am gost isel.



## Llwyddiant Chwarae a Chwaraeon i'r Gurnos, Galon Uchaf a Phenydarren

Y gymuned sydd piau ac sy'n arwain Ymddiriedolaeth Datblygu'r 3G. Gweithiwn ar draws gymunedau'r Gurnos, Galon Uchaf a Phenydarren yn ardal Merthyr Tudful i wella ansawdd bywyd ar gyfer pobl leol. Ni yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer cyfiwyo rhaglen Cymunedau'n Gyntar ar gyfer yr ardal, ac mae'n bwrdd cyfarwyddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr a Bwrdd Tenantiaid a Thrigolion lleol, aelodau unigol o'r gymuned a swyddogion allwedol o'n sefydliadau partner.

Dros 18 mis yn ôl daeth aelodau o'r gymuned at ei gilydd i ffrffio Cymdeithas Chwaraeon a chynnig cais llwyddiannus i Raglen Sportslot Cyngor Chwaraeon Cymru. Bydd y cais ar gyfer cais Sportslot yn gyfanswm o dros £760,000 a bydd yn darparu dwy ardal chwaraeon pob tywydd yn y gymuned ynghyd â rhaglen datblygu sylweddol yng nghampws Ysgol Uwchradd Pen-y-dre. Bydd y ddau ddatblygiad hyn yn agor cyfleusterau, ateb anghenion lleol, dynodi chwaraeon newydd, a datblygu cyfleoedd chwaraeon a hyfforddi presennol.

Elfen arall o'r Strategaeth Chwarae a Chwaraeon yw cynllun ar gyfer datblygu Ardaloedd Chwarae Gofod Diogel ar ofodau gwrrd ar draws cymunedau'r Gurnos, Galon Uchaf a Phenydarren. Daeth y penderfyniad i gynnwys Ardaloedd Chwarae o ymateb i lawer iawn o ymgynghoriad cymunedol. Felly fel rhan o'r strategaeth chwarae a chwaraeon rydym yn clymu ardaloedd chwarae diogel i blant gydag ardaloedd aml-chwaraeon a gyllidri gan Sportlot. Caiff yr ardaloedd chwarae a chwaraeon eu lleoli yn y gymuned a byddant yn pontio'r bwch rhwng plant bach a rhai yn eu harddegau.



Trefnwyd dynesiad gwirioneddol arloesol i ganfod barn a sylwadau pobl yn lansiad ein rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Bu'n Digwyddiad Ymgynghoriad Bws Mawr yn llwyddiant enfawr a roedd yn gyfle ardderchog i bobl leol ddweud wrthym yr hyn a hoffent yn y gymuned i'w gwneud yn lle gwell i'w gwneud. Gwnaethom gynllunio Dewin Dymuniad gyda'i ffon hud, a rhoi seren hud i bobl ifanc a ddaeth ar y bws - gyda'r seren honno medrent wneud un dymuniad ar gyfer eu gymuned. Roedd y dewin dymuniad yn boblogaidd iawn ac yn ddynesiad llwyddiannus iawn at ymgynghoriad. Ategwyd hyn gan fapio cymunedol a mur graffiti. Ynghyd â'r Bws Mawr gwnaethom gynnal cystadleuaeth farddoniaeth ac arlunio yn cynnwys yr holl ysgolion a grwpiau ieuencid. Thema'r gystadleuaeth oedd dyheadau pobl ifanc ar gyfer y dyfodol a chwasm ymateb ardderchog.

"Mae Cymunedau'n Gyntaf yn rhaglen gwirioneddol gyffrous a rydym yn gweithio'n galed yn gwrrd ar bobl leol a gweithredu ar eu dymuniadau lle medrwn. Bu pobl leol yn galw am Ardaloedd Diogel ar gyfer eu plant i chwarae a rydym yn frwd y byddwn drwy weithio partneriaeth effeithlon yn medru sicrhau cyfleusterau chwarae a chwaraeon cynaliadwy o safon dda."

Chris Davies, Gweithwraig Datblygu Cymunedol, Ymddiriedolaeth Datblygu 3G

Cyswilt: 01685 350888



# DATBLYGU CHWARAE

## Chwarae mynediad agored

*Ai chwaraeon yw?  
A yw'n ardal chwarae offer  
sefydlog?*

*A yw'n golygu zipiau a Velcro?*

*A yw fel ceisio cadw llysywen  
fyw yn eich bag llaw?*

**R**hoddod y cynllun Cronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer Canolfannau Integredig ddarpariaeth chwarae mynediad agored fel un o'i feini prawf ar gyfer cais llwyddiannus. Yn anffodus, prin yw'r rhai hynny sydd wedi deall y cysyniad, ac mae rhai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi cael anhawster i'w ymgorffori yn eu cais. Yn bwysicach, drwy fethu cynnwys chwarae mynediad agored yn eu cynlluniau, maent yn atal plant rhag cyrchu profiad cyfoethog a gwerthfawr iawn.

Rhannodd Deddf Plant 1989 ddarpariaeth chwarae yn ofal plant a mynediad agored yn dibynnu ar lefel y gofal a ddarparwyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar wedi adolygu Rheoliadau a Safonau Gofal Plant a Gofal Dydd, yn cynnwys y rhai hynny sy'n berthnasol i ddarpariaeth mynediad agored. Mae hyn yn ymgais i egluro'r dryswch, i gwmpasu'r disgrifiad o fewn y Safonau newydd, a dathlu chwarae mynediad agored.

- Mae mynediad agored yn cael ei staffio. Mae'r dryswch sy'n amgylchynu'r termau chwarae a gofal plant yn golygu bod y term mynediad agored yn aml yn cael ei ddefnyddio am ddarpariaeth nad ydyw'n cael ei staffio e.e. ardaloedd chwarae ag offer sefydlog. I fod yn hollol gywir, mae'r term yn berthnasol i leoliad staffio lle mae'r broses chwarae yn cael ei hwyluso gan weithwyr chwarae.
- Argymhellir y dylai fod yn ddi-dâl. Ni ddylai mynediad plant i ddarpariaeth gael ei benderfynu gan eu gallu i dalu.
- Nid oes unrhyw gytundeb wedi ei wneud â rhiant na gofalwr i ddarparu gofal.
- Mae ar gael i bob plentyn, yn cynnwys y rhai o dan wyth oed.
- Nid oes unrhyw amodau mynediad heblaw y rhai'n ymwneud â diogelwch a lles.
- Gall fod yn barhaol neu dros dro (e.e. gwyliau ysgol).
- Gall ddigwydd mewn amrywiol leoliadau, mewn adeilad neu fel arall, yn cynnwys canolfannau chwarae, lleoedd chwarae antur\* a chynlluniau chwarae.
- Mae'n darparu cyfleoedd i blant chwarae mewn amgylchedd diogel, yn eu ffordd hwy eu hunain, ac yn absenoldeb eu gofalwyr.
- Nid yw plant yn cael eu rhwystru rhag mynd a dod yn ôl eu dymuniad. Mewn gwirionedd anaml y mae plant yn crwydro - maent wedi dod o'u gwirfodd, ac maent yn aros oherwydd bod yr amgylchedd yn eu hysgogi a'u denu i gymryd rhan.
- Mae gan blant y rhyddid i ddewis pa gyfleoedd chwarae y maent yn dymuno ymgymryd â hwynt, a gyda phwy y maent dymuno chwarae a hynny mewn amgylchedd ysgogol cyfoethog. Mae plant yn rhydd i chwarae ar eu pennau eu hunain yn ogystal â gydag eraill.

**Bwriad darpariaeth chwarae mynediad agored yw gwireddu eu hangenion**



## Beth yw chwarae?

**chwarae. Nid yw wedi ei fwriadu:**

- I fod yn wasanaeth gwarchod plant ar gyfer eu gofalwyr.
- I fod yn gyfle i wasgu addysg ffurfiol ychwanegol i mewn i'r diwrnod, neu i'r rhai sydd ar ei hól hi gyda'u gwaith cartref (oni bai bod plant yn dewis defnyddio'u hamser yn y modd yma).
- I weithredu fel ffordd o leihau torcyfraith.
- I fod yn gynllun chwaraeon.
- I fod yn ardal chwarae offer sefydlog.
- I lyffetheirio neu ddiddanu.

Dylai pob darpariaeth chwarae, p'un ai yw'n ofal plant neu'n fynediad agored, hwyluso chwarae rhydd. Dylai plant fod yn rhydd i arfer yr hawl i ddatgan math a lefel yr ymddygiad chwarae y maent yn dymuno ei ddilyn o fewn paramedrau a ddewiswyd ganddynt hwy.

**\*Nid dim ond lle chwarae anturus yw ardal chwarae ag offer chwarae pren sefydlog. Cyfleuster mynediad agored wedi ei staffio ydyw lle mae plant yn cael y cyfle i ddylunio ac adeiladu eu hoffer chwarae eu hunain, i fowldio eu hamgylchedd eu hunain at eu dibenion eu hunan, ac i ymgyfrannu mewn amrediad cyflawn o weithgaredd yn cynnwys chwarae â phridd, awyr, tân a dŵr. Gallant wynebu a dysgu rheoli risg mewn amgylchedd sy'n cael ei arolygu a'i hwyluso gan weithwyr chwarae. Yn gyffredinol mae lleoedd chwarae antur wedi eu datblygu mewn ardaloedd dinesig i wneud iawn am absenoldeb gofod agored naturiol sy'n cynnwys coed, caeau, nentydd ac ati lle byddai plant wedi chwarae yn y gorffennol.**

Mae unrhyw ddiffiniad o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn mynd law yn llaw â diffiniad o chwarae ei hunan. Mae Chwarae Cymru yn glynu wrth ddiffiniad proffesiynol gweithwyr chwarae, fel yr un a ddatblygwyd gan AddysgChwarae.

Mae'r profiad o chwarae yn rhywbeth sy'n cael ei rannu gan y mwyafrif mawr o fodau dynol o gwmpas y byd, a mamaliaid eraill hefyd. Cawn ein geni gyda'r ysfia i chwarae - ffordd anifail ydyw o ddysgu am ei hunan a'r byd (corfforol ac emosiynol) wrth iddi/iddo dyfu yn oedolyn. Os cawn ein hamddifadu o'r cyfleoedd i chwarae'n rhydd ac i brofi amrediad cyflawn o ymddygiad chwarae rydym yn dioddef yn emosiynol, yn niwrolegol ac yn gorfforol.

Mae ysfia plentyn i chwarae yn aml yn cael ei newid gan oedolion i fodloni eu agenda hwy eu hunain; gall addysgwyr, gofalwyr a hyfforddwyr chwaraeon ei harneisio neu ei lesteirio mewn amrediad o ffyrdd i ddiwallu dibenion oedolion.

**Mewn gwirionedd ymddygiad yw chwarae sy'n:**

- Cael ei ddewis yn rhydd - mae plentyn yn dewis yn annibynnol yr hyn y mae'n dymuno ei wneud;
- Cael ei gyfeirio'n bersonol - mae plentyn yn dewis yn annibynnol sut mae'n ymuno mynd ati;
- Cael ei ysgogi er ei fwyn ei hun - mae plentyn yn dewis pam y mae'n gwneud yr hyn y mae'n ei wneud, ac nid yw'n cael ei berfformio er mwyn unrhyw gyrhaeddiad allanol na gwobr.

Fodd bynnag, yn nhermau datblygiad plentyn mae'n hollol amhrisiadwy, a'r gwobrwyon yn anfesuradwy ac yn parhau gydol oes.

Am fwy o wybodaeth am chwarae, a'r mathau o chwarae mae angen i blant eu profi i ddatblygu i'r eithaf yn gorfforol yn niwrolegol ac emosiynol, gweler Yr Hawl Cyntaf, a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru yn 2001 (£12.50) + pacio a phostio oddi wrth ein swyddfa genedlaethol). Mae Polisi Chwarae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cymru ar gael ar eu gwefan [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) ynghyd â'r meddylfryd sydd wrth ei wraidd (h.y. tystiolaeth o bwysigrwydd hanfodol chwarae plant yn ein cymdeithas) ar gael ar wefan Chwarae Cymru [www.playwales.org.uk/policy](http://www.playwales.org.uk/policy)



# DATBLYGU CHWARAE



**M**ae'r Fenter, lle chwarae mynediad agored a phrosiect cymunedol llwyddiannus yn Wrecsam, wedi cael ei ddewis gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel model ar gyfer Canolfannau Plant Integredig.

Mae'r Fenter yn ddiweddar wedi sicrhau cyllid i ymgymryd â phrosiect ymchwil a fydd yn ystyried gwerth chwarae mewn lle chwarae antur mynediad agored, a bydd yn ceisio cyfiawnhau a hybu'r arfer hwnnw mewn perthynas â barn a deddfwriaeth bresennol. Wrth gyflywno ei adroddiad dywedodd Ben Tawil, Rheolydd Cynorthwyol a Threfnydd Prosiect Ymchwil Y Fenter:

Bydd y prosiect yn cael ei weithredu mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, staff, ymwelwyr proffesiynol a defnyddwyr Menter yn y gorffennol. Ein bwriad yw llunio archif a dadansoddi 25 mlynedd o ddarpariaeth chwarae, ac amlinellu'r athroniaeth a'r arfer sydd wrth ei wraidd, ac sydd wedi cyfrannu at brosiect chwarae cymdogaeth llwyddiannus a holistig - yn ogytal ag amlinellu rhai o'r peryglon a'r sialensau!

Bydd y prosiect bron yn sicr o ganolbwyntio ar yr angen am ymagwedd amlddisgyblaethol tuag at ddarpariaeth gwasanaeth chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc mewn cymunedau. Yn ei ffurf derfynol, bydd y prosiect ymchwil yn cynnwys llyfryn, adroddiad ymchwil, a fideo.

Nid ydym yn ceisio cynhyrchu llawlyfr "sut i fynd ati", neu'n ceisio dweud ein bod ni wedi gwneud

# Model o Fenter

popeth yn iawn. Ond os medrwn edrych ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud gan ddweud pa bethau oedd yn dda ac yn wael, siarad â phlant, a rhwydo peth o'u hysbrydoliaeth, creadigrwydd, hyder a doethineb - y mae lleoedd chwarae menter yn gyfuriog ohonynt - bydd hynny gobeithiwn, o fudd i unrhyw un sy'n dymuno ei ddefnyddio, neu sydd eisoes ar yr un taith â ni.

Bydd Y Fenter hefyd yn rhedeg cyfres o ddyddiau agored a digwyddiadau hyfforddi i drafod yr athroniaeth a'r gwerthoedd sydd yn sylfaen i'r cynllun Canolfan Integredig Plant a gynigir o fewn ffrydiau ariannu Cymorth ac NOF. Bydd yr hyfforddiant yn cysylltu'n glos â'r nod o gwrdd â'r targedau a'r canlyniadau sy'n ofynnol ar gyfer y ffrydiau ariannu hyn. Croesewir hyfforddiant ac ymweliadau gan unrhyw bartion â diddordeb mewn darparu lleoedd chwarae antur mynediad agored tu allan i'r ysgol.

**Cysyllter â Ben Tawil yn Y Fenter ar 0178 355761 neu e-bost [theventure@talk21.com](mailto:theventure@talk21.com)**

**Plant o Wrecsam yn siarad am chwarae antur mynediad agored yn Y Fenter:**

- Mae bob amser yno, y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw dod lawr ac mae bob amser

rhywbeth i'w wneud.

- Rydych chi'n cael cyfle i ddweud sut mae pethau'n cael eu rhedeg a beth sy'n digwydd a hyd yn oed siarad â staff newydd cyn iddynt ddod am gyfweiliad.
- Mae'r staff a'r tân, hyd yn oed y gaeaf yn dda yma.
- Does neb yn siarad â chi fel yr ydym ni.
- Does dim byrddau snwcer yma fel yn y clwb ieuencid, ond nid yw'r fan yma run fath â'r clwb ieuencid.
- Gallwch adeiladu stwff, unrhyw beth sy'n cymryd eich ffansi.
- Mae'n ddiogel achos bod yna staff, ond nid ydynt yn mynnu eich sylw drwy'r amser - does dim rhaid i chi eu gweld os nad ydych yn dymuno hynny.
- Rydym yn hoffi noson tân gwyllt a'r ffîlôt Nadolig, a'r gwersyll a'r haf.
- Mae teithiau yn dda, ond mae bod gyda phob un arall o gwmpas y tân ar ddiwedd y nos a chwerthin hefyd yn dda.
- Bob tro mae Y Fenter yn agored rydw i yma.
- Rwy'n hoffi'r staff achos maen nhw mor glên. Maen nhw'n fodlon gwneud unrhyw beth i chi. Does dim gwahaniaeth beth yw e, ac maen nhw'n gofalu amdanom ni.
- Rwy'n hoffi tynnu'r tŵls allan, a gweithio ar stwff am wythnos bob dydd nes 'i fod e wedi 'i orffen. Mae hynny'n grêt. Fel y tŷ yn y goeden yn y gwanwyn neu'r grisiau.
- Rwy'n hoffi gwneud cuddfannau.
- Rwy'n hoffi cael brwydrau dŵr yn yr haf a'r sleid ddŵr.
- Mae'n dda yma achos allwch chi fod gyda phob un arall neu fynd i ffwrdd ar ben eich hunan os yr ydych chi eisiau.
- Mae'n dda yn y gaeaf pan fydd hi'n mynd yn dywyll a rydych chi'n gallu chwarae commando a phethau.
- Dylai pob un gael Menter.

# Chwarae

**C**ollodd plant y cyfle i chwarae llynedd pan gafodd y bobl oedd yn bwriadu sefydlu darpariaeth chwarae yng Nghymru eu brawychu i'r fath raddau gan ofynion cofrestru'r Arolygiaeth Safonau Gofal (CSIW) a gweithdrefnau'r Biwrô Cofnodion Troseddol fel bod rhai cynlluniau wedi methu cychwyn. Mae cwblhau toreh o waith papur yn rhwystr enfawr pan na fyddwch yn dymuno gwneud dim mwy na darparu sbri ar gyfer plant yn ystod gwyliau ysgol. Yn y cyfamser nid yw'n ymddangos bod arweiniad dealladwy hawdd ei gyrchu ar gael ar gyfer sefydlu darpariaeth chwarae yng Nghymru.

Mae Chwarae Cymru yn cydweithio â grŵp o swyddogion datblygu chwarae i gyhoeddi pecyn rhad sy'n tywys arweinyddion chwarae a grwpiau cymunedol drwy'r ddrysfa glymog bigog o sefydlu darpariaeth chwarae, p'un ai ydyw yn gynllun chwarae gwyliau ysgol, cynllun tu allan i'r ysgol neu ddarpariaeth mynediad agored. Y nod yw trwytho a chyfoethogi ansawdd eich gwaith, a hwyluso eich baich gweinyddol. Gan ddefnyddio'r egwyddorion a archwiliwyd yn yr Hawl Cyntaf, ein nod yw gwella eich dealltwriaeth o anghenion chwarae plant i'ch galluogi i ddarparu'r cyfleoedd chwarae gorau posibl ar eu cyfer.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i roi adborth i ni ar y llyfryn rhagarweiniol, yr arbennig gynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol a threfnwyr cynlluniau chwarae lleol (newydd a phrofiadol fel ei gilydd). Rydym hefyd angen pobl i roi cynnig ar y pecyn ymarferol a fydd yn cydfynd ag ef. Gan ein bod yn ymwybodol

eich bod i gyd yn bobl brysur, byddwn yn dosbarthu'r drafftiau ac yn casglu adborth drwy'r post a'r e-bost, gan adael y pleser o eistedd mewn cyfarfodydd i'r grŵp llywio. Gofynnir i chi gysylltu â Gill Evans yn ein swyddfa genedlaethol os hoffech gymryd rhan.

**Mae Yr Hawl Cyntaf...fframwaith asesu ansawdd chwarae ar gael o swyddfa genedlaethol Chwarae Cymru (£12.50 + pacio a phostio).**

# NEIDIO AM LAWENYDD

**C**ynllun mynediad agored yw **Lle Chwarae Antur y Rhyl, yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cyflwynodd Jonathon Bentley, Rheolydd ac Uwch Weithiwr Chwarae adroddiad ar ar y llwyddiant anhygoel dros wyliau hanner tymor mis Chwefror.**

Mae cyflwyno rhaffau i'r sesiwn chwarae gyffredinol Lle Chwarae Antur y Rhyl wedi hybu gweithgaredd gwyllt, a hefyd wedi tanlinellu nifer o elfennau corfforol a chymdeithasol yn ymddygiad plant a phobl ifanc.

Yn araf deg cyflwynais rai sgiliau sgipio sylfaenol ar ddechrau'r hanner tymor. I gychwyn, prin oedd nifer y plant a ymatebodd. Erbyn diwedd yr wythnos, roedd nid yn unig nifer anhygoel yn mynychu'r Lle Chwarae gyda 170 wedi eu cofnodi ar un diwrnod, ond hefyd ddwsinau a dwsinau o blant, bechgyn a merched, rhwng 5-16 mlwydd oed, yn ciwio i gymryd rhan yn y gemau a gweithgareddau sgipio.

Roedd yn amlwg iawn bod y bobl ifanc yn eu

harddegau, bechgyn yn arbennig yn betrusgar, yn amheus ac yn esgus nad oedd ganddynt diddordeb ar y cychwyn, ond roedd eu brwdfrydedd erbyn diwedd yr wythnos yn drawiadol. Yr hyn oedd yn amlwg oedd absenoldeb cydsymudiad corfforol, nerth a dyfalbarhad ymhlith llawer o'r plant. Fodd bynnag, roeddent wrth eu bodd yn sgipio, a daeth cyfranogiad parhaus â gwellhad mawr iddynt yn y gweithgaredd yma.

Cynyddodd cymhlethdod y gemau sgipio wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen ac anogodd hyn gyfranogiad mewn gemau traddodiadol eraill a'r gweithgareddau'n cyrraedd uchafbwynt mewn sesiwn o ddawnsio Albanaidd un dydd Sadwrn! Yn ddiweddar, ar gyfartaledd cafwyd presenoldeb o ryw 80 o blant bob dydd - ac mae'r diolch i ymdrechion gweithwyr chwarae'r Rhyl am hybu gemau traddodiadol a gemau i grwpiau mawr heb ddefnyddio offer drud na thechnoleg fodern.

**NEIDIWCH ATI!**

**Cyswilt Jonathon Bentley ar 01745 344751**

# chwarae allan

## Parthau cartref

### Beth yw'r sgôr uchaf yng Nghymru? Un Winkelerf ac un Woonerf!

**Y**chydig o flynyddoedd yn ôl bu llawer iawn o gyhoeddusrwydd am **Parthau Cartref**, ond yma yng Nghymru ymddengys fod y syniad wedi cwythu ei blwc. Yn y flwyddyn 2000 roedd unarddeg o brosiectau peilot ym Mhrydain, yn cynnwys un ym Magwyr, ond hyd yn ddiweddar nid oeddem wedi clywed am unrhyw ddatblygiad pellach i'r gorllewin o Glawdd Offa.

Yn Lloegr profodd y prosiectau peilot i fod yn llwyddiant mawr. Mae'r Llywodraeth yn ddiweddar wedi cefnogi'r Sialens Parth Cartref â swm o £30m i adeiladu trigain ac un o barthau pellach, ac mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn adeiladu eu parthau cartref eu hunain fel rhan o'i mentrau cynllunio hwy eu hunain. Ond oes yna unrhyw fywyd mewn Parthau Cartref yng Nghymru? Hyd yn hyn mae Adran Polisi Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd ymagwedd aros-i-weld, gan ddyuno cynhyrchu ymateb "holistig" i'r hyn sy'n cael ei weld yn gyffredinol fel mater yn ymwneud â diogelwch ffyrdd. Mae Sue Essex, Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad wedi "cymryd diddordeb" ac mae parthau cartref yn fwy tebygol o gael "mwy o broffil" yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Diogelwch Ffyrdd y Cynulliad ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd yn Ionawr, yn canolbwyntio ar y gostyngiad mewn cerdded a seiclo, ac yn cydnabod yr angen i gefnogi plant i gerdded a seiclo mewn diogelwch i'r ysgol, i'r siopau, lleoedd chwarae, parciau a chanolfannau hamdden. Mae bwriad y strategaeth yn dda, ac yn ceisio mynd i'r afael â rhai materion perthnasol iawn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes unrhyw sôn am Parthau Cartref, neu werth strydoedd fel gofod cymunedol neu ofod ar gyfer chwarae. Mae'r car yn parhau i reoli.

Mae Chwarae Cymru'n cefnogi Parthau Cartref - mae strydoedd yn fannau amhrisiadwy lle gall plant chwarae a datblygu eu diwylliant eu hunain. Mewn rhai ardaloedd, strydoedd yw'r unig fannau cyhoeddus lle gallant chwarae o fewn cyrraedd hawdd i'w cartrefi eu hunain, fel rhan o'u cymuned hwy eu hunain. Mae'r Polisi Chwarae newydd ar gyfer Cymru'n datgan bod: "chwarae mor allweddol bwysig i bob plentyn fel y dylai cymdeithas geisio cefnogi pob cyfle i greu amgylchedd sy'n ei feithrin". Mae'r amgylchedd lle mae plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser o ddydd i ddydd fel arfer yn agos i'w cartref. Hoffai Chwarae Cymru weld y Cynulliad yn anrhydeddu'r polisi chwarae drwy annog newidiadau yn y ffordd y mae strydoedd preswyl newydd yn cael eu cynllunio yn nhermau tai a thrafnidiaeth, newidiadau a fydd yn ystyried barn ac anghenion plant.

Yn yr Iseldiroedd ystyrir bod Parthau Cartref mor werthfawr i gymunedau lleol fel mai'r polisi presennol yw gofalu bod 50% o strydoedd preswyl yn Parthau Chwarae neu ardaloedd cyflymder isel iawn o fewn y ddwy flynedd nesaf. Yn y cyfamser mae penseiri a dylunwyr dinesig sy'n dymuno helpu cymunedau i ddatblygu

Parthau Cartref yn cael eu rhwystro gan nifer o ffactorau:


- pwysau ar ofod - mae'r Llywodraeth yn disgwyl cael deuddeg tŷ i bob erw o dir, (cynnydd o ddau y cyfer) ac mae landlordiaid tai cymdeithasol o dan bwysau i ddarparu tai ar gyfer cynifer â phosibl o denantiaid; nid yw hyn yn gadael llawer o le ar gyfer ardaloedd chwarae mewn cynlluniau adeiladu newydd;
- adrannau prifffyrdd awdurdodau lleol y mae eu rheolau'n rhoi blaenoriaeth i draffig yn hytrach na cherddwyr;
- offer chwarae anhyblyg, rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n nodi maint penodol o ofod o amgylch offer chwarae, a rhwng offer chwarae a heolddy;
- rheoliadau cynllunio pitw;
- diffyg arian - yng Nghymru nid oes unrhyw gynllun ariannu penodol ar gyfer parthau cartref.

### Yr Un ac Unig Woonerf

Os hoffech weld yr unig Barth Cartref gwirioneddol yng Nghymru ewch i Rhos Nathan Wyn yn Aberaman, lle mae Cymdeithas Tai Newydd a Gwasanaeth Dylunio Cymunedol (Penseiri a Chynllunwyr Trefol) er gwaethaf pob rhwysytr, wedi cynnwys parth cartref bychan ar offer chwarae plant fel rhan o strategaeth adnewyddu ystadau.

Roedd ymgynghoriad cymunedol yn cynnwys dyddiau agored yn un o'r fflatiau lleol yn ogystal â chyfarfodydd mawr, a chynhwyswyd plant yn ogystal ag oedolion. Gofynnwyd i denantiaid sut y gellid gwella'u bywydau drwy newidiadau yn eu hardal gyfagos, a'r newidiadau yr oeddent yn eu dymuno oedd gerddi preifat yn ogystal ag ardaloedd chwarae cyhoeddus ar gyfer y plant lleiaf, ac ardaloedd lle gallai teuluoedd gymdeithasu yn yr awyr agored.

Cyflwynodd Andrew Chapman, y Swyddog Datblygu Cymunedol gais i Adran Dai'r Cynulliad Cenedlaethol am grant arbennig ar gyfer cynlluniau newydd, a derbyniodd £50,000 gan Pobl mewn Cymunedau i gwrdd â chostau'r Parth Cartref. Buddsoddodd Newydd ei arian ei hunan hefyd yn y cynllun. Lluniodd Jonathon Bevan o'r Gwasanaeth Dylunio Cymunedol, gynlluniau i addasu'r gofod agored a'r ardal barcio oedd yn bodoli eisoes, a chynhwysodd ofod chwarae bach yn cynnwys ty chwarae, si-so springar a het



gwrach, yn ogystal â sleid wedi ei hadeiladu i mewn i'r lan naturiol wrth ymyl llwybr poblogaidd. Hefyd gosododd fwrdd picnic ar gyfer defnydd cymunedol oherwydd bod rhai trigolion yn hoffi barbeciw yn y stryd yn ystod misoedd yr haf.

**Mae'r safle'n dal i gael ei adeiladu a bydd Sue Essex yn mynychu'r lansiad swyddogol yn hwyrach yn y Gwanwyn.**

### Diffiniad

Cychwynnodd Parthau Cartref yn yr Iseldiroedd, a chyfeirir atynt fel Woonerf neu Winkelerf.

Stryd breswyl yw Woonerf wedi ei chynllunio neu ei hail-gynllunio, mewn ymgynghoriad â'r trigolion (yn cynnwys plant hefyd!) gan roi blaenoriaeth i bobl leol a'u hanghenion yn hytrach nag i drafnidiaeth. Mae strydoedd yn cael eu newid drwy fesurau lleddfu trafnidiaeth llym (fel arfer yn cynnwys cyfyngu cyflymder i 5 milltir yr awr), parcio sy'n gyfeillgar i bobl, plannu, celfi stryd ac offer chwarae. Mae palmentydd ac wynebau ffyrdd yn cael hintegreiddio fel bod cadeiriau gwthio, beiciau, treiciau a chadeiriau olwyn yn cael mynediad hawdd i'r stryd gyfan. Gan fod plant yn defnyddio strydoedd i chwarae, ystyrir eu hanghenion gyntaf, wedyn cymuned oedolion ac yn olaf anghenion gyrrwyr ceir. Mae cerbydau'n cael eu gweld fel gwesteion.

Cynllun tebyg mewn ardal siopa yw Winkelerf - megis yr un sydd yn awr yn bodoli ym Magwyr.

Addasiadau o'r strydoedd preswyl sy'n bodoli eisoes yw ardaloedd cartref retrofit, tra bo parthau cartref adeiladu newydd yn cael eu hymgorffori i mewn i gynlluniau tai newydd.

Am fanylion pellach, rhestr ddarllen a gwefannau defnyddiol cysyllter â Gill Evans yn swyddfa genedlaethol Chwarae Cymru.

# chwarae allan

## DIWRNOD CHWARAE

Dydd Mercher 6 Awst 2003

### 'Ewch Allan a Chwarae'

**Yn ôl yr arfer, bwriad y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol eleni yw tanlinellu materion cyfredol sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae plant.**

Mae pryder cynyddol ynghylch safle plant yn y gofod cyhoeddus. Mae plant yn y rhan fwyaf o gymunedau mewn 'cylch diefflig', lle mae bod allan yn yr awyr agored yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n rhy beryglus iddynt, felly mae rhieni ac oedolion eraill yn cyfyngu ar eu rhyddid. Ar yr un llaw, mewn rhai cymunedau, mae gadael i blant chwarae tu allan yn cael ei weld fel arwydd o rieni gwael, a chyn heddiw mae plant a phobl ifanc sy'n chwarae tu allan wedi ennyn drwgdybiaeth a gelyniaeth. Bydd Diwrnod Chwarae 2003 a'r digwyddiadau i danlinellu'r mater yma yn

helpu i unionu'r cam ac efallai bydd hyd yn oed yn 'cleisio' y cylch.

Mae ymgynghoriadau diweddar â phlant wedi dangos eu bod yn dymuno treulio mwy o amser yn yr awyr agored, ac mae'n wir bod llawer ohonynt yn dal i chwarae tu allan. Mae'r oedolion yn eu bywydau yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r diffyg rhyddid a symudedd i blant. Mae'r cyhoedd yn dod yn fwyfwy ymwybodol bod plant yn colli rhywbeth allweddol yn nhermau eu datblygiad. Mae angen harneisio'r ymwybyddiaeth yma gael, ond yn bwysicach, mae angen mabwysiadu mesurau strategol i sicrhau bod yr effaith ar blant yn sensitif a chadarnhaol. Gall ymgyrchoedd Diwrnod Chwarae gicdanio gweithredu cadarnhaol.

Ar lefel genedlaethol, mae'r Cyngor Chwarae Plant a Chymdeithas y Plant yn bwriadu ymgymryd ag arolwg plant a fydd yn gofyn i blant ym mha ffordd y maent yn cael eu rhwystro rhag chwarae allan yn yr awyr agored ger eu cartrefi. Bydd yr holiadur ar gael arlein, ac am ragor o wybodaeth cysyllter â Pennie Hedge yng Nghyngor Chwarae Plant phedge@ncb.org.uk.

Yma yng Nghymru, hoffem glywed hanesion oddi wrth bobl o bob oed am blant yn cael eu hannog neu eu rhwystro rhag chwarae tu allan ger eu cartrefi, ac ar nodyn mwy cadarnhaol, hoffem glywed oddi wrth bobl am brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu cymunedau. Gobeithiwn gyhoeddi'r rhain yn rhifyn yr Haf, dyddiad cau 30 Mai 2003.

**Am ragor o wybodaeth am Ddiwrnod Chwarae 2003 gweler [www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk).**

**Mae manylion yn Digwyddiadau am Gynhadledd Chwarae Llundain am drefnu Diwrnod Chwarae.**

**I gael gwybodaeth bellach am gynllunio digwyddiadau penodol yn eich ardal, cysyllter â Marianne Mannello yn Chwarae Cymru.**

## Mae'n anodd credu dy fod wedi llwyddo

**Ymddangosodd yr erthygl hon yn ddiweddar yn y Times, cyfraniad gan ddarlennydd o Gaerfaddon a roddodd hawl i ni ei gyhoeddi. Nostalgia pur yw'r darn i'r rhai a dyfodd i fyny yn y 1950au, 60au a'r 70au, ond mae'n gwneud pwynt pwysig iawn . . .**

### Dyma fersiwn gryno:

*Roeddem yn treulio oriau'n adeiladu ein go-gartiau allan o ddarnau o sgrap ac yn mynd i lawr y rhiw i ddarganfod ein bod wedi anghofio'r brêcs. Ar ôl rhedeg mewn i'r llwyni fwy nag unwaith byddem yn dysgu sut i ddatrys y broblem.*

*Byddem yn gadael ein cartref yn y bore ac yn chwarae drwy'r dydd, cyn belled ag y byddem yn cyrraedd adre pan fyddai lampau'r stryd yn goleuo. Nid oedd neb yn medru ein cyrraedd drwy'r dydd. Doedd dim ffonau symudol. Anhygoell. Roeddem yn chwarae pêl ac weithiau byddai'r bêl yn gwneud dolur i ni. Roeddem yn cael ein brifo ac yn torri esgyn a dannedd, ac nid oedd unrhyw achosion llyys am y damweiniau hyn. Damweiniau oeddent. Nid oedd bai ar neb heblaw amdanon ni. Ydych chi'n cofio damweiniau?*

*Roeddem yn ymladd ac yn bwrw ein gilydd ac yn cael llw o gleisiau ond roeddem yn ymdopi â hwy.*

*Roeddem yn bwyta teisennau cwpan, bara menyng ac yn yfed soda siwgr ond nid oeddem byth yn ennill pwysau - roeddem bob amser yn chwarae yn yr awyr agored. Roeddem yn rhannu un soda grawnwin rhwng pedwar ffrind, ac ni fu neb farw fel*

*canlyniad. Roeddem yn yfed dŵr o bibell yr ardd ac nid o botel. Erchyll!*

*Nid oedd gennym 'Play Stations', Nintendo 64, Blychau-X, gemau fideo, 99 sianel cêbl, ffilmiau tapiâu fideo, sŵn amgylchynol, galwadau ffonau symudol personol, Cyfrifiaduron Personol, stafelloedd sgwrsio drwy gyfrwng y rhyngwrwyd...roedd gennym ffrindiau. Aethom allan i'w darganfod. Roeddem yn seiclo ar feiciau neu'n cerdded i dŷ ffrind ac yn cnocio ar y drws, neu'n canu'r gloch neu'n cerdded i mewn a siarad â hwynt.*

*Dychmygwch y fath beth. Heb ofyn i riant! Ar ein pennau ein hunain! Allan fanna mae yna fyd oer creulon! Heb neb i'n gwarchod. Sut roeddem yn medru gwneud y fath beth? Roeddem yn creu gemau gyda brigau a pheli tennis ac yn bwyta mwydod, ac er y dywedwyd wrthym y byddem yn dallu rhywun neu y byddai mwydod yn byw tu mewn i ni am byth, fyddai'r fath beth byth yn digwydd.*

*Ni oedd yn gyfrifol am beth oeddem yn wneud. Roedd canlyniadau i'w disgwyl. Neb i guddio tu cefn iddynt. Doedd neb wedi clywed sôn am riant yn dod i'n hachub pe baem yn torri' gyfraith. Roeddent hwy o blaid y gyfraith, dychmygwch hynny!*

*Mae'r genhedlaeth yma wedi cynhyrchu rhai o'r mentrwy'r arloeswyr a'r dyfeiswyr gorau, y gorau erioed. Mae'r 50 mlynedd a aeth heibio wedi bod yn ffrwydriad o fentergarwch a syniadau newydd. Cawsom ryddid, methiant, llwyddiant a chyfrifoldeb, a gwnaethom ddsygu sut i ymdopi â'r holl beth.*



# MYNEGWCH EICH BARN AR

## > PARHAD O Dudalen 1

daenu'n denau i gwmpasu prosiectau chwarae ledled Prydain. Mae cynnwys ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, manau chwarae offer sefydlog ac ati yn y cylch gwaith yn golygu taeniad teneuach fyth.

Mae perygl i'r rhaglen yma gael ei defnyddio i adnewyddu lleoedd chwarae offer sefydlog nad ydynt wedi cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol, a ddylai gael eu hariannu'n rheolaidd gan y rhai sy'n eu darparu. Dylai ymgeiswyr ddangos sut mae eu prosiect yn defnyddio ffrydiau ariannu eraill ar gyfer chwarae, ac nad oes yna unrhyw ariannu amgen ar gael.

Waeth beth fo natur y prosiect dylai fod datganiad clir na fydd yn rhaid i blant na'u gofalwyr dalu rhagor am fynediad i ddarpariaeth chwarae.


## Rôl Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc

Mae'r cynnig i ddsbarthu cyllid NOF a chyflwyno gwasanaethau drwy Bartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, yn ddealladwy, gan mai dyma'r system bresennol, ond gallai hyn ddifreinio ymhellach grwpiau gwirfoddol â diddordeb mewn chwarae neu waith chwarae. Nid yw'r sector gwirfoddol na'r proffesiwn gwaith chwarae eto'n cael eu cynrychioli'n ddigonol ar y Partneriaethau, a'u haelodaeth yn tueddu i wyro tuag at broffesiynau a chanddynt flaenoriaethau ac agendau gwleidyddol gwahanol. Byddai cynllun gyda dyraniad i bob ardal Awdurdod Lleol, a cheisiadau sy'n dangos perthynas â'r Partneriaethau priodol (i sicrhau ymagwedd strategol ac i hybu cynladwyaeth) yn darparu'r dull mwyaf hyblyg, cyfiawn ac eglur o ddsbarthu.

## Blaenori Cyllid

Mae Chwarae Cymru'n cefnogi'r cynnig i ganolbwyntio ar y plant hynny â mynediad gwael i gyfleoedd chwarae da ac i beidio gosod blaenoriaethau cyffredinol yn ôl oedran. Mae hefyd yn cefnogi dulliau o ddsrannu sy'n ffafrio prosiectau wedi eu lleoli mewn ardaloedd ag anafteision cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd hyn eisoes yn derbyn cefnogaeth ariannol ychwanegol, a dylid rhoi ystyriaeth arbennig i gymunedau sy'n syrthio tu allan i gwmpawd ariannu sydd wedi ei dargedu. Nid yw amddifadwydd chwarae wedi ei gyfyngu i blant o gymunedau economaidd-difreintiedig - mae'n croesi pob categori cymdeithasol a diwylliannol a'r amrediad o amgylcheddau byw ac amgylchiadau economaidd.

Dylid blaenori prosiectau chwarae cymdogoeth - dylai ddarpariaeth chwarae gynnig cyfleoedd chwarae cynyddol i blant o wahanol oed, yn cynnwys yr amrediad o bellteroedd sy'n rhaid i blant deithio. Ni fydd ddarpariaeth y gyrrir plentyn iddo mewn car yn



cyfrannu'n sylweddol at gwrdd ag angen plentyn am ddarpariaeth chwarae lleol hygrych.

Mae'r rhaglen yn cynnig y cyllid cyfalaf angenrheidiol i gychwyn prosiectau, ynghyd â chyllid refeniw ar gyfer ddarpariaeth sy'n cael ei staffio. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod ddarpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio'n dod yn rhan annatod o'r gymuned mae angen iddo ddatblygu dros gyfnod o amser, a dylai cyllid dros leiafswm o 10 mlynedd fod ar gael. Mae tensiwn clir rhwng y dymuniad am ganlyniadau tymor byr a realiti ymarferol gwaith chwarae yng nghyd-destun datblygiad cymunedol tymor hir. Ar lefel leol, gellir dadlau'n rymus dros ddatblygu gwaith partneriaeth sy'n cefnogi ymgyfraniad cymunedol a perchnogaeth o ddarpariaeth chwarae

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae yna ddwy thema ategol y gellid eu datblygu i hybu gwaith partneriaeth a chynladwyaeth tymor hir:

1. Gallai cymunedau gwledig ddefnyddio offer chwarae y maent yn eu hadeiladu eu hunain.
2. Gallai cymunedau mewn ardaloedd trefol ddefnyddio'r arian i sefydlu ddarpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio - lleoedd chwarae antur er enghraifft, (gweler diffiniad o le chwarae antur ar dudalen 4).

Mae'r broses hunan-adeiladu, yn ogystal â'r broses sefydlu lle chwarae antur yn meithrin datblygiad cymunedol, yn ogystal â pherchnogaeth o'r ddarpariaeth, ac yn ychwanegu at yr amrediad o gyfleoedd chwarae i blant.

## Nawdd Masnachol

Ni ddylai anghenion ac awydd plant i chwarae cael eu boddi na'u hameisio er mwyn unrhyw ddiben masnachol. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd nid yw'n beth anarferol i fusnes lleol gefnogi prosiectau cymunedol, sydd i'w groesawu. Ni ddylai fod yn ofynnol i unrhyw blentyn dalu am ddefnyddio unrhyw ffurf o ddarpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio ac ni ddylai fod yna unrhyw



# CHWARAE YNG NGHYMURU

amodau mynediad eraill heblaw'r rhai sy'n berthnasol i ddiogelwch a lles y plentyn.

Ni ddylai'r rhaglen NOF ei hunan fod yn gysylltiedig i unrhyw fath o nawdd

## Arfer Da mewn Ymgyfraniad Cymunedol

Dylai natur a lleoliad prosiectau adlewyrchu demograffi ac anghenion plant yn y gymuned a dylent gael eu lleoli yn y fath fodd fel eu bod yn caniatáu mynediad hawdd i bob plentyn yn yr amrediad oed y maent wedi eu dylunio ar eu cyfer.

Mae egwyddorion darpariaeth chwarae hunan-adeiledig nid yn unig yn cyfrannu at anghenion chwarae plant ond hefyd yn gweithredu fel darparydd datblygiad cymunedol. Yn ychwanegol at gwrdd ag anghenion chwarae plant, drwy roi ffocws i gymunedau mae'n tynnu aelodau at ei gilydd ac yn rhoi nod cyffredin iddynt.

Mae darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio yn cynnig cyfle i oedolion o fewn y gymuned i gyfrannu at reolaeth a hefyd gyflwyniad darpariaeth; byddant yn cychwyn efallai fel gwirfoddolwyr ac symud ymlaen i ddog yn aelod cyflogedig o'r staff. Mae'r model yma o waith chwarae wedi cael ei gydnabod ers tro byd fel un sy'n darparu mynediad di-fygythiad neu ail-fynediad i waith cyflogedig â llawer o'r sgiliau sy'n ofynnol i weithwyr chwarae yn rhai hynod drosglwyddadwy.

## Meincnodau, Safonau, Offer, Sicrwydd Ansawdd a Gwerthusiad

Yn nhermau hwyluso chwarae "YR HAWL CYNTAF" (Chwarae Cymru, 2001) yw'r model gwerthuso ansawdd mwyaf addas ar gyfer darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio, a dylid ei ddefnyddio i werthuso prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan y rhaglen. Ar gyfer materion yn ymwneud â gofal perthnasol i ddarpariaeth chwarae, "Quality in Play, (London Play, 1999) yw'r model ansawdd sydd fwyaf sensitif i chwarae. Mae "Best Play" (Cyngor Chwarae Plant, NPFA PlayLink 2000) hefyd yn rhoi arweiniad defnyddiol.

Dylai safonau sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas ag ardaloedd chwarae fod yn hyblyg gan ystyried nodweddion lleol mewn unrhyw ardal o dan sylw. Mae "Six Acre Standard" yr NPFA felly yn gyfyng ei ddefnydd. Gall fod yn berthnasol i ddatblygiad preswyl newydd, ond nid yw'n cynnwys meini prawf sy'n berthnasol i ddemograffi lleol a hyd yn oed yn y cyd-destun yma gall y cyd-destun fod yn rhy waharddiadol. Ar hyn o bryd nid oes safonau gofod chwarae amgen ar gael ar gyfer ardaloedd dinesig sefydledig na chymunedau gwledig, ac mae Chwarae Cymru'n argymhell bod safon newydd (yn cwmpasu darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio megis lleoedd chwarae antur) yn cael ei ddatblygu i gwrdd ag anghenion plant yng Nghymru.

Dylai'r Safonau Ewropeaidd EN1176, ar gyfer darpariaeth chwarae offer sefydlog gael eu hystyried mewn cysylltiad â'r arfer asesu risg sy'n adlewyrchu anghenion ymddygiadol plant am her a chyffro.

## Cefnogaeth i Gynllunio a Chyflwyno Prosiectau

Dylai pob cais ddangos lefelau priodol o ymgyfraniad cymunedol yn amrywio o ymgynghoriad â phlant i berchnogaeth a rheolaeth o ddarpariaeth chwarae. Mae hyn yn berthnasol yn arbennig i brosiectau sy'n cynnig defnyddio'r cyllid i ddatblygu offer chwarae hunan-adeiladu.

Gallai'r cyllid hefyd gael ei ddefnyddio i gyfrannu i ddatblygu rhwydwaith gefnogi sy'n rhoi cyfle i weithwyr chwarae rannu sgiliau ac arbenigedd perthnasol i ddatblygiad darpariaeth chwarae lleol.

## Sgiliau a Chymwysterau Priodol

Lle mae prosiectau sy'n cael eu cefnogi yn cyflogi staff dylent fod â chymwysterau sy'n ateb gofynion y fframwaith gymwysterau. Os nad oes y fath weithwyr chwarae cymwys ar gael dylai fod yn ofynnol bod staff heb gymwysterau'n derbyn hyfforddiant gwaith chwarae priodol fel elfen o'u cyflogaeth. Hyfforddiant gwaith chwarae sydd fwyaf addas ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae.

## Dyfeisgarwch

Dylid rhoi pwyslais mawr ar ariannu prosiectau dyfeisgar. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ystyried yr amrediad llawn o anghenion chwarae plant

ac i ddatblygu prosiectau arloesol i gwrdd â'r anghenion hynny. Fodd bynnag, efallai bod yr hyn a gyfrifir yn ddyfesigar mewn un ardal ddaearyddol eisoes yn ddarpariaeth chwarae sefydledig mewn un arall, felly dylid cydnabod dyfeisgarwch mewn rhyw ran arbennig o'r wlad.

Mae'r rhaglen yma'n rhoi'r cyfle i ariannu prosiectau enghreifftiol sy'n cael eu staffio a'u penderfynu'n lleol ac sy'n enghreifftiau o arfer gorau, sy'n ymwneud ag amrediad ehangach o anghenion chwarae plant nag a ellid efallai gwrdd a hwynt mewn lleoedd chwarae offer sefydlog nad dynt yn cael eu staffio.

Yn hytrach na pharhau i ddarparu amrediad cyfyng o offer sefydlog, wedi ei osod yn ei le gan gontractwyr arbenigol, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, gallai cymunedau llai adeiladu eu darpariaeth chwarae eu hunain ac mewn cymunedau mwy bydd datblygiad darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio'n ymestyn yr amrediad o gyfleoedd chwarae i blant a darparu amgylchedd sy'n gwneud iawn am brinder cyfleoedd chwarae, yn arbennig ar gyfer plant mewn ardaloedd dinesig.

**Os hoffech wybodaeth ychwanegol neu drafod unrhyw un o'r materion yn yr ymateb yma, cysylltwch â Chwarae Cymru. Cyn hir byddwch yn medru cyrchu ein hymateb llawn drwy ein gwefan ar**

[www.playwales.org.uk](http://www.playwales.org.uk).

**Gellir llwytho copiau o'n dogfen ymgynghorol i lawr o wefan y Cynulliad ar [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) neu gysylltu ag Elinor Jones yn yr Adran Plant a Theuluoedd ar 029 20801119 neu [elinor.jones@wales.gsi.gov.uk](mailto:elinor.jones@wales.gsi.gov.uk)**

## Swyddogion Datblygu Chwarae Sector GWIRFODDOL YNG NGHYMURU

Yn ein rhifyn diwethaf rhoddwyd rhestr o rhifau cyswllt Swyddogion Datblygu Chwarae yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Dyma fanylion Swyddogion Datblygu Chwarae'r Sector Gwirfoddol; os gwelwch unrhyw fwch amlwg byddem yn ddiolchgar iawn pe cysylltech â ni fel y gallwn eu cyhoeddi yn rhifyn yr haf.

<b>Caerffili</b>	Prosiect Chwarae Creadigol Caerffili	Michelle Jones	01443 822644
<b>Powys</b>	Sir Frycheiniog	Marion Guthrie	01874 622446
	Sir Drefaldwyn	Diane Jones	01686 640380
	Sir Faesyfed	Kerry Berroyer	01874 623720
<b>Rhondda Cynon Taff</b>	Interlink	Beth Davies	01443 485337
<b>Merthyr Tudful</b>	Fforwm Chwarae Merthyr	Paula Wood	01685 353963

Roedd y rhif ffôn a roddwyd ar gyfer Steven Roberts o Ynys Môn yn Chwarae Dros Gymru (rhifyn 8) yn anghywir. Medrwyd gysylltu ag ef ar 01248 724944.

# www.playwales.org.uk

Ewch i wefan Chwarae Cymru ar ei newydd wedd a gweld y dilynol:

- y newyddion diweddaraf un am chwarae
- dalenni gwybodaeth ar chwarae a lleoedd chwarae
- gwybodaeth gefndir ar Bolisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru
- manylion am ein hadnoddau gwybodaeth, gyda chronfa ddata hygyrch yn dod ar-lein o fewn yr ychydig fisoedd nesaf
- manylion digwyddiadau a gwasanaethau Chwarae Cymru
- manylion cyhoeddiadau Chwarae Cymru a ffurflenni o'r Hawl Cyntaf
- cyn hir medrwrch hysbysebu swyddi yn gysylltiedig â chwarae yng Nghymru ar gost isel iawn neu'n ddi-dâl

Ewch i'w weld a'i ychwanegu at eich ffefrynnau.

## DIGWYDDIADAU

### Dathlu Ysbryd Chwarae Antur –

cynhadledd genedlaethol ar gyfer gweithwyr lleoedd chwarae antur 14 ac 15 Mai, Caerdydd.

*Cysyllter â Chwarae Cymru am ragor o wybodaeth.*

### Gwnewch y Gorau o'r Diwrnod Chwarae –

cynhadledd genedlaethol wedi ei threfnu gan London Play ar ddydd Llun 19 Mai 2003 yn County Hall, Llundain. Gweithdai a chyflwyniadau ar sut i redeg digwyddiad diwrnod chwarae llwyddiannus gan ddefnyddio'r Diwrnod Chwarae fel teclyn ymgyrchu.

*Cysylltwch â Glenys yn London Play 020 7272 6759*

### Diwrnod Chwarae 2003 Mercher 6 Awst –

y thema yw Ewch Allan i Chwarae, dechreuwch gynllunio nawr – ymwelwch â [www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk) am ragor o wybodaeth.

## HYFFORDDIANT

### Archwilio Mannau Chwarae Plant

25 Mawrth 2003, Chorley, Lancs – cysyllter ag ILAM Events 0870 845 8475

### Strategaethau Chwarae

1 Ebrill 2003, Canolbarth Lloegr, cyfle i archwilio'r materion sydd ynghlwm wrth ddatblygu eich strategaeth eich hunan, cysylltwch ag ILAM Events megis uchod.

### Cyflwyniad i Fathau o Chwarae

1 Ebrill 2003, Birmingham, bydd y siaradwr Bob Hughes yn amlinellu Mathau o Chwarae mewn fforwm ysgogol a defnyddiol sy'n ddefnyddol ar gyfer hyfforddwy'r gwaith chwarae – cysyllter â Gweinyddydd y Gynhadledd ar CACHE on 01727 738339.

### Codi Arian i Ddechreuwy'r

1 Mai 2003 (dyddiad cau 20 Mawrth) De Cymru – cysyllter â WCVA 029 2043 1723 training@wcva.org.uk

## CYLLID

### Grwpiau Ieuentid

Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru wedi cyhoeddi cynllun grant newydd i ogledd Cymru o'r enw Cynhyrfu. Gall grwpiau ieuentid wneud cais am i fyny at £500 i gefnogi unrhyw weithgaredd unigol neu wariant cyfalaf llai a fydd o fantais i bobl ifanc o Yrns Môn i Wrecsam. Mae'n rhaid i unrhyw grŵp ieuentid sydd eisiau gwneud cais am grant wneud hynny cyn 24 Mawrth. *Gellir cael pecynnau cais drwy ffonio 02920 520250 neu drwy e-bostio cynhyrfu@cfw.org.uk.*

### Gwirfoddolwyr

Prosiect Busnes yn y Gymuned yw Gofalwyr sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n herio busnesau a'u cyflogwyr i ddefnyddio'u hamser, eu sgiliau a'u hadnoddau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar adfywiad cymunedol. Efallai y gallant helpu eich prosiect chi. *Cysyllter â Caerdydd (029 2048 3348), Wrecsam (01745 817 332) neu Abertawe (01792 323 689), neu gweler www.walescares.co.uk*

### Mae Grantiau Arian Datblygu Cymunedol Ffoaduriaid

ar gael i sefydliadau sy'n gweithio'n agos â ffoaduriaid yn y Deurmas Gyfunol. *Ymwelwch â www.ind.homeoffice.gov.uk neu ffoniwch 020 8760 8418*

### Mae Grantiau Ymddiriedolaethau Elusennol Stadiwm y Milennium

o £2,000 i £20,000 ar gyfer chwaraeon, y celfyddydau, gweithgareddau diwylliannol ac amgylcheddol ar gael i sefydliadau gwirfoddol, ddim-am-elw ac awdurdodau lleol am brosiectau nad ydynt yn weithgareddau craidd, o dan y cynllun Acitvate! Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n darparu ar gyfer pobl o dan anfantais oherwydd oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd ac amgylchiadau cymdeithasol/economaidd. *Cysyllter â Louise Edwards ar 029 204963 neu ymwelwch â MSCT@fusionuk.org.uk*

## LLYFRAU a chylchgronau

### For Every Child

*the rights of the child in words and pictures*

Tra'n twrio drwy siop lyfrau yng Nghaerdydd ar ymweliad siopa Nadolig, deuthum ar draws llyfr plant clawr meddal wedi ei ysgrifennu a'u ddarlunio mewn arddull hyfryd gan UNICEF. Mae pob erthygl yng Nghonfensiwn Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig wedi ei grisialu gan ddarlunydd plant gwahanol o gwmpas y byd, ac mae'r testun yn glir ac yn wefreiddiol. Fel mae'r teitl yn awgrymu, dylai pob plentyn gael un, ond os nad yw hynny'n bosibl, dylai pob plentyn gael mynediad i un. Peidiwch aros tan y Nadolig nesaf! Wedi ei gyhoeddi gan Random House, pris £5.99 (pob breindal i UNICEF) ISBN 0-09-940865-1

### Play Words

Mae'n dda gennym ddweud bod y cylchgrawn yn awr yn ôl mewn print. Yn gymysgedd o newyddion, erthyglau ymarferol a damcaniaethol, mae Play Words yn anheggor i bobl sydd o ddirif ynghylch chwarae. Mae tansgriffiadau'n costio £30, cysyllter â [playwords@commonthreads.co.uk](mailto:playwords@commonthreads.co.uk) neu 07000 785 215

### Playwork Theory and Practice

"Mae hwn yn llyfr a fydd yn herio'r ffordd yr ydych yn edrych ar eich hunan ac ar eich arfer gwaith"

Adolygiad o'r gwerslyfr gwaith chwarae diweddaraf gan Jackie James, Uwch Weithwraig Chwarae yng Nghlwb Ar Ôl Yr Ysgol yn Heol Kitchener yng Nghaerdydd, a myfyrwraig ar gwrs BA (Anrhydedd) Astudiaethau Cymunedol (Gwaith Chwarae) yng Nghaerllion.

Mae hwn yn llyfr newydd cyffrous i weithwyr chwarae ar bob lefel gyda chyfraniadau gan ddeuddeg awdur gwahanol o wahanol gefndiroedd chwarae. Mae pob pennod yn rhoi i'r darlennydd fwy o wybodaeth a syniadau, yn ogystal â mynediad i gyfoeth o brofiad ac arbenigedd yn y maes gwaith chwarae. Mae llawer iawn yn cael ei gwmpasu mewn llyfr bach, o'r adran agoriadol sy'n edrych ar wreiddiau chwarae a gwaith chwarae, i drafodaethau dyfnach ar theori gwaith chwarae, ac ymlaen i'r rhan olaf sy'n fyfyrddod ar arfer. Wrth i bob awdur dafu goleuni ar bwnc arbennig, mae'r llyfr yn ymddangos fel petai'n llifo o bennod i bennod, ac roedd yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall. Rhoddodd ddigon i mi gnoi cil arno, er enghraifft, gwnaeth y bennod ar sefydlu chwarae i mi feddlw am ddyfodol y proffesiwn gwaith chwarae, a dangosodd dyddiadur adlewyrchol o gartref plant amddifad yn Romania effaith truenus diffyg chwarae, a sut y gellir defnyddio chwarae at ddiobenion therapiwtig.

Yn fy ngwaith bob dydd gyda phlant rwyf wedi dysgu nad oes teryn i atgofion a phrofiadau – mae'r rhai a gofnodir yn y llyfr yma yn wersi addas i weithwyr chwarae yn awr, yn union fel ag yr oeddent y pryd hwnnw. Rwyf wedi mwynhau y llyfr yma, ac rwy'n gwybod y bydd yn un y gwnaf droi ato eto ac eto ar gyfer astudio ac am enghreifftiau arfer da.

### Playwork Theory and Practice

Fraser Brown (Golygydd), Gwasg y Brifysgol Agored ISBN 0-335-20944-0